# Adroddiad Arolygu

**Pobl Bach LTD**

**Cartref Penymorfa**
**Lôn Penymorfa**
**Llangynnwr**
**Caerfyrddin**
**SA31 2NW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Pobl Bach LTD

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pobl Bach Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 38 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Ionawr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau, a chaiff eu hanghenion eu hystyried yn llawn. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'r plant a'r staff. Maent yn chwarae'n egnïol ac yn dangos mwynhad wrth ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol yn llawn. Maent yn rheoli risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi yn eu chwarae a'u dysgu, ac maent yn darparu cyfleoedd a phrofiadau rhagorol i'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn groesawgar. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau iechyd a diogelwch da ar waith ac maent yn lleihau'r rhan fwyaf o'r risgiau i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i welliannau parhaus. Maent yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn sicrhau y caiff hyfforddiant staff ei reoli yn effeithiol. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni, ysgolion a'r gymuned leol.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn cyfathrebu'n hyderus ymhlith ffrindiau a'r staff. Maent yn gwneud dewisiadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt yn rheolaidd. Er enghraifft, yn ystod brecwast, mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac maent yn gyfforddus wrth wrthod unrhyw beth nad ydynt yn dymuno ei fwyta. Mae'r plant yn hyderus yn gofyn am gymorth. Er enghraifft, cafodd y plant eu clywed yn gofyn, *“can you help me please?”* Mae'r plant iau yn penderfynu a ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau pen bwrdd a gynlluniwyd a phryd i adael, gan symud ymlaen i archwilio adnoddau o'u dewis.

Mae'r plant wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni ac yn cyrraedd yn llawn brwdfrydedd. Mae'r plant yn mwynhau gweld wynebau cyfarwydd y staff wrth iddynt eu cyfarch. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol, gan ymgolli eu hunain yn eu chwarae. Mae'r plant yn fodlon ar eu newidiadau drwy gydol y dydd, fel symud i'r ystafell ddosbarth awyr agored ar gyfer gweithgareddau.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn ystyrlon ac yn ofalgar. Mae'r plant yn gyfforddus yn lleisio eu barn, yn rhannu eu safbwyntiau ac yn gofyn a fydd angen unrhyw beth arnynt fel mynd i'r toilet. Mae llawer o'r plant yn fodelau rôl da a gallant fynegi empathi. Maent yn sensitif i anghenion eraill, er enghraifft, pan wnaeth un plentyn ollwng llaeth, gwnaeth un plentyn a oedd yn eistedd yn agos symud ei gadair yn agosach, rhoi pat ar ei gefn a dweud, *“it’s okay, come sit with me.”* Mae'r plant nad ydynt yn gallu siarad eto yn gwenu, yn pwyntio ac yn nodio wrth iddynt ryngweithio â'r staff. Maent yn gyfforddus wrth geisio sicrwydd neu agosatrwydd pan y dymunant, fel cael maldod neu eistedd ar lin aelod o'r staff.

Mae'r plant yn cael llawer o brofiadau pwrpasol ac yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, yn yr ystafell ddosbarth awyr agored, roedd y plant yn canolbwyntio'n llawn wrth iddynt greu cludweithiau o flodau ffres ar gardfwrdd gan gynnwys rhai o'r plant yn cyffwrdd, arogli ac yn pigo'r blodau cyn penderfynu sut i'w trefnu a'u rhoi ar eu gwaith celf. Roedd eraill yn arsylwi ac yn dechrau trafodaethau am y siapiau a lliwiau, *“look at mine, it’s all yellow.”* A dywedodd plentyn arall, *“that’s nice.”* Gwnaeth llawer o'r plant alw eto am y gweithgaredd yn llawn cyffro, gan ddweud yn hyderus wrth y staff pa blentyn oedd wedi gwneud pob cludwaith. Gall y plant iau ganolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser tra'n archwilio'r toes chwarae a'r perlysiau, gan fwynhau profiadau synhwyraidd fel cyffwrdd ac archwilio'r gweadau a'r arogleuon. Mae gan y plant ryddid i archwilio eu hamgylchedd dan do ac awyr agored yn ddiogel, ac maent yn gwneud hynny yn hyderus, gan fwynhau'r cyfle i ddilyn eu greddfau a syniadau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, fel gwisgo ffedogau a rhoi menyn ar eu tôst. Maent yn dysgu sut i ddatrys problemau a chânt gyfleoedd i fod yn chwilfrydig. Caiff y plant eu cefnogi i wella eu ffordd o feddwl a rhagweld beth a all ddigwydd nesaf yn ystod gweithgareddau. Er enghraifft, gwnaeth y plant blannu ffa dringo yn eu tai gwydr a wnaed â llaw a gwylio gan feddwl wrth iddynt weld eu ffa yn tyfu. Maent yn mwynhau gofalu am lindys a sicrhau eu bod yn cael gofal. Yn ystod amseroedd bwyd, caiff y plant eu cefnogi i fod yn annibynnol ac i fwynhau eistedd wrth y bwrdd gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu sut i ddefnyddio cyllyll a ffyrc. Mae sgiliau mynd i'r toiled y plant yn annibynnol ac maent yn gofyn yn hyderus os bydd angen cymorth arnynt i olchi eu dwylo.

| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn er mwyn hyrwyddo diogelwch, llesiant a dysgu'r plant yn effeithiol. Maent yn nodi ac yn rheoli risgiau mewn ffordd ragweithiol wrth iddynt godi a phan fydd hynny'n digwydd. Mae'r staff yn hyderus o ran gweithdrefnau diogelu'r lleoliad ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent yn rhoi arferion glanhau a hylendid cadarn ar waith drwy gydol y dydd ac yn atgoffa'r plant o'r angen i ystyried golchi eu dwylo a'u hannog i wneud, ac i ystyried anghenion personol fel sychu eu trwynau eu hunain. Mae'r staff yn gwisgo ffedogau a menig yn rheolaidd yn ystod amser prydau. Maent yn dilyn polisi newid cewynnau y lleoliad ac yn sicrhau urddas a phreifatrwydd tra hefyd yn canmol y plant am eu hymdrechion yn y toiledau. Er enghraifft, tra roedd y staff yn newid cewynnau, roedd y plant yn sgwrsio wrth iddynt olchi eu dwylo, *“look at me, push the soap, like this you do it!”* Ymatebodd y staff gan ddweud, *“well done everyone you are very good at helping each other.”* Mae'r staff yn llawn gwybodaeth mewn perthynas â gweithdrefnau'r lleoliad wrth ymdrin ag alergeddau. Maent yn effeithlon wrth sicrhau y caiff damweiniau, digwyddiadau, salwch ac arferion newid cewynnau eu diweddaru ar ap cyfathrebu y rhieni. Mae'r staff yn darparu bwydlen iach a chytbwys sy'n cael ei hyrwyddo ynghyd â moesau da wrth y bwrdd a'r gallu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gynnes ac yn garedig yn gyson. Mae'r staff yn cynnig cymorth tra'n cyfathrebu ac maent yn sensitif i brofiadau'r plant. Er enghraifft, ar ôl i ddiod gael ei ollwng, ymatebodd y staff â gofal, gan ddileu unrhyw risgiau a chynnig sicrwydd, *“don’t worry, it was only an accident.”* Mae'r staff yn fodelau rôl ardderchog, gan sicrhau bod y cyfathrebu y mae'r plant yn ei glywed a'i weld yn garedig ac yn ofalgar, sy'n creu amgylchedd parchus a hapus. Maent yn hyrwyddo hawliau, diwylliant, iaith ac anghenion y plant, gan roi'r agweddau hyn ar waith yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r staff yn hyrwyddo ieithoedd cartref y plant ac yn sicrhau bod y plant yn cael rhyngweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae'r staff sy'n llai hyderus yn siarad Cymraeg yn ymdrechu i sicrhau bod y rhyngweithio yn ddwyieithog. Mae'r staff yn rhoi amser a gofal i'r plant nad ydynt yn siarad Saesneg gan sicrhau eu bod yn setlo'n ddidrafferth i'r profiadau. Er enghraifft, mae'r staff yn effeithiol wrth ddefnyddio system laniard sy'n cynnwys cardiau iaith a lluniau, ac mae'r plant yn ymateb yn hapus pan maent yn deall.

Mae gan y staff ddealltwriaeth ardderchog o ddatblygiad y plant ac yn adnabod y plant yn dda, sy'n arwain at ymddygiad cadarnhaol ac amgylchedd dysgu hamddenol. Mae'r staff yn annog y plant i fod yn holgar ac yn chwilfrydig. Maent yn cwestiynu'r plant yn ystod gweithgareddau gan ddweud, *“what do you think will happen if we pour this into the soil?” “What kind of pattern will be in the playdoh if we press this shell into it?”* Mae'r staff yn galluogi'r plant i ganolbwyntio gan eu bod yn dilyn diddordebau'r plant ac yn sicrhau nad ydynt yn cael eu rhuthro. Mae'r staff yn cynllunio themâu yn ofalus, gan gynnwys *Tyfiant, Garddio a Bwystfilod Bach* ac maent yn cynnig gweithgareddau pwrpasol ac ystyriol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddiddordebau a phrofiadau dyddiol y plant. Maent yn frwdfrydig ac yn ymfalchïo yn eu prosesau cynllunio sy'n amlwg o amgylch y lleoliad. Mae'r staff yn paratoi gweithgareddau ysgogol mewn hambyrddau twff gan ddefnyddio powdr siocled poeth a siwrwd gwenith i fod yn debyg i bridd. Mae'r staff hefyd yn paratoi profiadau dysgu'r plant gyda'r rhieni drwy ap cyfrinachol. Er enghraifft, mae'r plant yn gwneud cebabau ffrwythau a oedd yn cynnwys y gwaith o baratoi, torri a bwyta.

**Yr Am**gylchedd **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd croesawgar, cynnes, glân a chartrefol, gyda mynedfeydd ac allanfeydd clir. Maent yn cynnal ymarferion tân a phrosesau gwagio'r adeilad yn rheolaidd, ac mae'r cofnodion yn gyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff cyfarpar tân eu gwasanaethu a bod gwiriadau diogelwch yr adeilad yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n gywir. Maent yn cadw ffeil gynhwysfawr o asesiadau risg cyfredol a phwrpasol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu yn flynyddol neu pan fo angen. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio ap digidol i gofnodi presenoldeb y plant a chaiff eu hamseroedd cyrraedd a gadael eu storio. Mae'r staff hefyd yn cofrestru i mewn ac allan drwy system cod digidol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl ymwelwyr yn cofrestru wrth gyrraedd a gadael y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn cynnig amgylchedd sy'n cynnwys mynedfa ddiogel ac ardal addas i gynnal trafodaethau cyfrinachol â rhieni. Mae swyddfa ar gael hefyd lle caiff yr holl ddogfennau eu storio'n gyfrinachol, a chegin lle y caiff prydau iach eu paratoi'n ddiogel gan gogydd y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu dan do sy'n galluogi'r plant i archwilio a meithrin sgiliau newydd. Er enghraifft, ardaloedd ar gyfer amser stori a chylch, ardaloedd adeiladu a gwneud marciau ac ardaloedd lle gall y plant archwilio rhannau rhydd, adnoddau naturiol a chwarae synhwyraidd. Maent hefyd yn sicrhau bod yr ardaloedd awyr agored yn gaeedig, gan gynnig ardaloedd preifat ag amrywiaeth o arwynebau i'r plant chwarae. Mae'r ystafell ddosbarth awyr agored yn ogystal ag ardaloedd cysgodol yn rhoi cyfleoedd i'r plant fod yn yr awyr agored ym mhob mathau o dywydd. Caiff y plant eu goruchwylio bob amser, ac mae'r staff yn wyliadwrus, yn cyfathrebu'n agored ac yn deall lefelau risg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae o ansawdd da iawn ar gael i'r plant dan do. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau yn addas ar gyfer oedran y plant, a'u bod yn cynnig amrywiaeth, dewis a chyfleoedd i'r plant archwilio a dysgu. Er enghraifft, rhannau rhydd i wella gweithgareddau gan gynnwys adeiladu a rhifedd a'r ardal chwarae rôl sy'n cynnwys adnoddau bywyd go iawn. Yn yr ardal awyr agored, maent yn cynnig amrywiaeth o gyfarpar o ansawdd da i ddatblygu sgiliau corfforol fel cyfarpar dringo a chyfarpar reidio.

Maent yn darparu cyfarpar sy'n cynnig cyfleoedd i'r plant ddatrys problemau megis cafnau tywod a dŵr sydd wedi'u llenwi â chynwysyddion a mowldiau. Mae gwesty pryfed a'r adnoddau naturiol yn galluogi'r plant i addasu eu defnydd yn unol â'r themâu. Mae basgedi sydd wedi'u storio'n isel yn galluogi'r plant i gael gafael ar adnoddau ac i wneud dewisiadau yn ystod eu profiadau dysgu. Mae'r plant iau yn mwynhau amrywiaeth o adnoddau synhwyraidd, cerddorol a phriodol o ran oedran, sy'n cael eu harddangos ar eu huchder, gan eu galluogi i archwilio eu hamgylchedd dysgu yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn sicrhau bod y plant yn dysgu am amrywiaeth o ddiwylliannau a gwyliau fel Diwali, Hannukah a Harvest.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r personau â chyfrifoldeb yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac yn cadw ffeil o bolisïau a gweithdrefnau sy'n unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn sicrhau bod y polisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn adlewyrchu arferion y lleoliad yn gywir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r personau â chyfrifoldeb yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn dogfennu arferion a gweithdrefnau mewn ffordd drefnus a chyfrinachol. Maent yn cadw cofnodion o ffeiliau'r plant, rotas cludiant a dogfennau cyfreithiol ategol ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau y caiff hysbysfwrdd ei osod lle gall yr holl staff ac ymwelwyr ei ddefnyddio, gan ddarparu gwybodaeth gyfredol megis polisïau a chyfrifoldebau'r staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r personau â chyfrifoldeb yn sicrhau y caiff adolygiad hunanwerthuso manwl ei gwblhau'n flynyddol. Maent yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y staff a'r plant yn ofalus er mwyn cynnal safonau a sicrhau y caiff gwelliannau parhaus eu gwneud, fel yr ardaloedd awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r personau â chyfrifoldeb yn rheoli'r staff yn dda. Maent yn cadw ffeiliau'r staff yn gyfredol ac yn sicrhau y caiff yr holl ddogfennau perthnasol eu storio'n gyfrinachol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff prosesau recriwtio diogel eu cwblhau cyn cyflogaeth er mwyn cynnwys y gwiriadau priodol. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi drwy broses sefydlu a'u bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol i alluogi'r staff i drafod targedau a diwallu anghenion hyfforddiant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac roeddent yn canmol y cymorth y maent yn ei gael. Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwelsom dystiolaeth o'r hyfforddiant gorfodol a'r amserlenni ar gyfer y cyrsiau hyfforddi sydd i ddod. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a'u bod yn croesawu cyfleoedd i rannu enghreifftiau o arferion da. Mae'r staff yn hapus i gynnig gwybodaeth am arferion dyddiol, prosesau cynllunio, cyfrifoldebau diogelu, ac am ddefnyddio apiau digidol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau hirsefydlog â'r rhieni. Maent yn mwynhau cydweithio â'u chwaer-leoliadau, gan sicrhau y caiff lefelau staffio eu cynnal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o bartneriaid proffesiynol yn yr awdurdod lleol, er mwyn galluogi'r lleoliad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'r teuluoedd. Maent yn cynnig gwasanaethau gollwng a chasglu o'r ysgol ac yn gweithio'n agos gyda sawl ysgol leol i alluogi'r plant i gael gofal ar ôl ysgol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud defnydd o'u cymuned i sicrhau bod y plant yn cael ymdeimlad o hunaniaeth ac yn cael cyfleoedd i ymweld ag ardaloedd lleol megis ffermydd, ac maent yn mwynhau cael ymwelwyr yn y lleoliad i ennill profiadau newydd fel cerddoriaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/07/2024